# Llinell Gyngor Diogelwch Nwy yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 0800 300 363

## Y broblem

Bob blwyddyn bydd tua 30 o bobl yn marw o wenwyn carbon monocsid a achosir gan offer a ffliwiau nwy sydd heb eu gosod na'u cynnal a'u cadw'n iawn. Mae llawer o bobl eraill hefyd yn dioddef o salwch. Pan na fydd nwy yn llosgi'n iawn, fel gyda thanwyddau eraill fel glo, coed neu olew, cynhyrchir gormod o garbon monocsid, sy'n wenwynig.


Ni allwch ei weld. Ni allwch ei flasu. Ni allwch hyd yn oed ei arogli. Ond gall carbon monocsid ladd yn ddi-rybudd mewn mater o oriau.

Rydych mewn risg yn arbennig pan fyddwch yn cysgu am na allwch adnabod symptomau cynnar gwenwyn carbon monocsid. Mae'r rhain yn cynnwys blinder, syrthni, cur pen, teimlo'n gyfoglyd, poenau yn y frest a phoenau yn y stumog. Gellir drysu'r symptomau hyn â sawl salwch cyffredin a gellir eu drysu â ffliw neu flinder yn hawdd.


Os byddwch chi neu'ch teulu yn cael profiad o'r symptomau uchod, a'ch bod o'r farn y gall carbon monocsid fod yn rhan ohono, **mae'n rhaid i chi geisio cyngor meddygol ar unwaith**. Bydd angen i'ch meddyg gymryd prawf gwaed neu sampl o'ch anadl. Mae carbon monocsid yn gadael y gwaed yn gyflym a **gallai profion fod yn anghywir os cânt eu cymryd fwy na phedair awr ar ôl i'r amlygiad ddod i ben**.

Rydych mewn perygl o wenwyn carbon monocsid os:

- cafodd eich offer ei osod yn wael;
- nad yw eich offer yn gweithio'n iawn;
- nad yw eich offer wedi'i wirio ar gyfer diogelwch neu wedi'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd;
- nad oes digon o awyr iach yn yr ystafell;
- yw eich simnai neu ffliw yn cael eu blocio;
- ydych yn gadael i beirianwyr nad ydynt wedi'u cofrestru â CORGI osod neu gynnal a chadw eich offer.




Offer nwy diogel




Offer nwy peryglus

Mae risg benodol os byddwch yn cysgu mewn ystafell ble caiff offer, nad ydynt wedi'u selio mewn ystafell (ee tân nwy confensiynol), eu gadael i losgi yn ystod y nos. (Lleolir allfeydd ffliw ar offer wedi'u selio mewn ystafell fel arfer ar wal allanol ar lefel isel wedi'u hamddiffyn gan gawell yn hytrach nag ar lefel y to neu'n uwch na hynny.)

## Yr atebion

**PEIDIWCH BYTH** â defnyddio offer nwy os ydych o'r farn nad yw'n gweithio'n iawn. Mae'r arwyddion i gadw golwg amdanynt yn cynnwys fflamau melyn neu oren (ar wahân i danau effaith tanwydd sy'n arddangos fflam y lliw hwn), huddygl neu staeniau o amgylch yr offer a golau peilot sy'n chwythu allan yn aml.

**PEIDIWCH BYTH** â gorchuddio offer na blocio'r tyllau aer darfudo.

**PEIDIWCH BYTH** â chau neu rwystro unrhyw ridyll awyru neu friciau aer sefydlog.

**PEIDIWCH BYTH** â chau neu orchuddio ffliwiau y tu allan.

**RHYBUDD:** Pryd bynnag y caiff system cadw drafft allan, ffaniau yn y to neu ffaniau tynnu aer, gwydr dwbl neu estyniadau heulfan eu gosod i ystafell sy'n cynnwys offer nwy, dylid gwirio'r offer er diogelwch yn dilyn hynny.

Cynghorir **POB** defnyddiwr nwy i wirio eu hoffer ar gyfer diogelwch **o leiaf bob 12 mis** gan osodwr CORGI cofrestredig.

**Gallai fod hawl gennych i gael gwiriad diogelwch am ddim.**

Os ydych dros 60 oed, â salwch cronig, yn anabl, yn fyddar neu â nam ar eich clyw, yn ddall neu â nam ar eich golwg, bydd gennych hawl i ymuno â Chofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth eich cyflenwr. Gallwch ymuno am ddim ac unwaith y byddwch yn aelod bydd gennych hawl, ymysg pethau eraill, i gael gwiriad diogelwch nwy blynyddol am ddim (oni bai eich bod yn byw mewn llety ar rent ble mae'n ddyletswydd ar eich landlord i sicrhau y cynhelir y gwiriad). Am ragor o wybodaeth edrychwch ar gefn eich bil nwy.

Mae **LARYMAU CARBON MONOCSID** yn ddull rhagofal defnyddiol wrth gefn ond rhaid **PEIDIO** â'i ystyried yn lle gosod a chynnal offer nwy yn iawn gan osodwr CORGI cofrestredig. Os byddwch yn penderfynu prynu larwm carbon monocsid, gwnewch yn siwr ei fod yn cwrdd â'r safonau diogelwch presennol (BS 7860 neu BS EN 50291) a chyda'r Nod Barcud arno. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth gofynnwch i aelod o'r staff am gyngor. Dilynwch gyfarwyddiadau lleoli'r gwneuthurydd bob amser.

Os byddwch yn arogli nwy, neu'n amau bod nwy yn gollwng, dylech wneud y canlynol ar unwaith:

- Agor pob drws a ffenestr.
- Diffodd y cyflenwad nwy wrth falf rheoli'r mesurydd (os gwyddoch ble mae). Os bydd nwy yn parhau i ddianc ffoniwch **Transco** ar y **Rhif Rhadffon Nwy Brys 0800 111 999**.
- Os byddwch yn amau bod carbon monocsid yn gollwng, dilynwch y weithdrefn uchod, oni bai y gallwch nodi'r offer penodol sydd â'r diffyg. Yn yr achos hwn dylech gysylltu â gosodwr CORGI cofrestredig i archwilio a gwneud atgyweiriadau.

## Y gyfraith

Mae Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 yn rhoi dyletswydd ar ddefnyddwyr nwy, gosodwyr, cyflenwyr a landlordiaid. Mae'r rheoliadau hyn yn cysylltu â rheoliadau diogelwch eraill ar offer llosgi, ee y Rheoliadau Adeiladu, sy'n safonol ar gyfer awyru a ffliwiau. Er eich diogelwch chi cofiwch:

- **yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i unrhyw un fydd yn gweithio ar offer neu osodiadau nwy fel rhan o'u busnes fod yn gymwys ac wedi'u cofrestru â CORGI (y Cyngor ar gyfer Gosodwyr Nwy Cofrestredig).** Gwnewch yn siwr fod eich gosodwr wedi'i gofrestru drwy ofyn am gael gweld eu cerdyn llun prawf adnabod CORGI presennol sydd â llun gosodwr, eu rhif cofrestru CORGI, eu teitl masnachu a dyddiad y daw'r cerdyn i ben arno. Mae cefn y cerdyn yn nodi'r math o waith nwy y gall y gosodwr ei wneud. Gallwch hefyd ffonio CORGI yn ystod oriau arferol y swyddfa ar 01256 372300 neu logio ar wefan CORGI ar www.corgi-gas.com;

*...parhad drosodd*

- **yn ôl y gyfraith dim ond person cymwys a all gynnal y gwaith ar offer neu osodiadau nwy.** Gall gwneud gwaith eich hun ar offer neu osodiadau nwy fod yn beryglus ac mae'n debygol o fod yn anghyfreithlon;

- **yn ôl y gyfraith rhaid i chi beidio â defnyddio unrhyw offer neu osodiadau nwy y gwyddoch eu bod yn anniogel neu eich bod yn amau eu bod yn anniogel.** Drwy CORGI, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi gofyn i bob gosodwr cofrestredig ddatgysylltu unrhyw offer neu osodiadau nwy sydd mor beryglus fel y gallent beryglu bywyd os cânt eu defnyddio. Os bydd eich gosodwr yn gofyn eich caniatâd i ddatgysylltu offer neu osodiad o'r fath bydd er budd eich diogelwch chi, a diogelwch eraill, i gytuno ar hynny. Cyn i chi ddefnyddio'r offer neu'r gosodiad hwn eto, gadewch i osodwr wedi'i gofrestru â CORGI ei atgyweirio;

- **yn ôl y gyfraith, mae landlordiaid fel arfer yn gyfrifol am wneud yn siwr bod gosodiadau a ffliwiau nwy wedi'u cadw mewn cyflwr da, ac y caiff offer nwy a ffliwiau eu gwirio ar gyfer diogelwch unwaith mewn cyfnod o 12 mis. Mae'n rhaid iddynt hefyd gadw cofnod o wiriadau diogelwch am o leiaf ddwy flynedd a chyhoeddi'r dystysgrif ddiweddaraf i denantiaid presennol ac unrhyw denantiaid newydd cyn iddynt symud i mewn.** Os ydych yn berchen ar yr offer, chi fydd yn gyfrifol am ei gynnal ac am wiriadau diogelwch;

- **yn ôl y gyfraith, *ac eithrio'r math wedi'u selio mewn ystafell*, ceir cyfyngiadau ar osod offer nwy fel tanau, boeleri a gwresogyddion mewn ystafelloedd gwely. Dim ond i offer a osodwyd ar ôl 1 Ionawr 1996 a'r rhai a osodwyd eisoes mewn ystafelloedd mewn llety rhent a gafodd eu newid yn ystafelloedd gwely ar ôl 31 Hydref 1998 y mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol.** Dim ond os oes dyfais sy'n diffodd y cyflenwad nwy yn awtomatig cyn i lefel beryglus o fygdarth gronni y gellir gosod offer nad ydynt wedi'u selio mewn ystafell, ee tân nwy confensiynol sy'n 14 cilowat neu lai. Fodd bynnag, ar gyfer offer sy'n fwy na 14 cilowat dim ond y rhai wedi'u selio mewn ystafell a gaiff eu gadael mewn llety o'r fath;

- **yn ôl y gyfraith, ers 31 Hydref 1998, bu'n anghyfreithlon gosod gwresogyddion dŵr ar unwaith sydd heb eu selio mewn ystafell neu heb eu gosod â dyfais ddiogelwch sy'n diffodd y cyflenwad nwy cyn i lefel beryglus o fygdarth gwenwynig gronni mewn unrhyw ystafell;**

- **yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i gludwyr prif gyflenwad nwy/darparwyr gwasanaeth brys (ESP), os bydd argyfwng, wneud y sefyllfa'n ddiogel.** Dylent ddarganfod achos y nwy yn dianc a chymryd camau i atal y nwy rhag dianc o fewn 12 awr. Os bydd carbon monocsid yn dianc mewn gwirionedd neu os byddant yn amau hynny dylent ymateb i adroddiadau gan y defnyddwyr a diogelu'r sefyllfa.

## Darllen pellach

Os hoffech gael gwybodaeth fwy manwl am y pwnc, efallai y bydd y cyhoeddiad canlynol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o ddefnydd i chi: *Safety in the installation and use of gas systems and appliances. Gas Safety (Installation and Use) Regulations 1998. Approved Code of Practice and guidance L56* (Ail argraffiad) HSE Books 1998 ISBN 0 7176 1635 5.

Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cynhyrchu'r daflen ganlynol: *Danger: Carbon monoxide poisoning. Solid fuel, wood and oil burning appliances. Get them checked, sweep your chimneys and be safe* 1999. Ar gael oddi wrth: Free Literature Service, PO Box 236, Wetherby, West Yorkshire LS23 7NB Ffôn: 0870 1226 236, Ffacs: 0870 1226 237, Ffôn testun 0870 1207 405, neu ei dadlwytho o www.safety.odpm.gov.uk/bregs/br19.htm

## Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch â phris arnynt ac am ddim ar gael drwy archebu drwy'r post oddi wrth HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch â phris arnynt hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir dadlwytho taflenni am ddim o wefan HSE: www.hse.gov.uk.)

Mae Safonau Prydeinig ar gael oddi wrth BSI Customer Services, 389 Chiswick High Road, London W4 4AL Ffôn: 020 8996 9001 Ffacs: 020 8996 7001 Gwefan: www.bsi-global.com

Er mwyn cael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 08701 545500 Ffacs: 02920 859260 e-bost: hseinformationservices@natbrit.com neu ysgrifennwch at Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Gwefan Diogelwch Nwy HSE:
**www.hse.gov.uk/gas/index.htm**

Llinell Gyngor Diogelwch Nwy HSE
**0800 300 363**

**Cyhoeddwyd yr arweiniad hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw dilyn yr arweiniad yn orfodol ac mae croeso i chi weithredu mewn ffordd arall. Ond os byddwch yn dilyn yr arweiniad byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Bydd arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfio â'r gyfraith a gallant gyfeirio at yr arweiniad hwn fel dogfen sy'n dehongli arfer da.**

ⓗ *Hawlfraint y Goron* Mae croeso i chi atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, ardystio neu fasnachol.

Cyhoeddwyd gyntaf 10/02. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.
**INDG238(diwyg2)** 10/02 C7500
Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

HSE Health & Safety Executive

Rhifyn 2002 diwygiedig

# Offer nwy

## Gwiriwch hwy Cadwch hwy'n ddiogel

**Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth newydd bwysig. Darllenwch hi. Gallai achub eich bywyd.**

Llinell Gyngor Diogelwch Nwy yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
**0800 300 363**